Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Coral Laser, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 02 Mai 2023

Dyddiad cyhoeddi: 02 Awst 2023





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:


| | |
|---|---|
| Yn ysgrifenedig: | Rheolwr Cyfathrebu<br>Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Busnes Rhyd-y-car<br>Merthyr Tudful<br>CF48 1UZ |
| Neu | Ffôn:0300 062 8163<br>E-bost:hiw@gov.wales<br>Gwefan: www.agic.org.uk |


ISBN Digidol 978-1-83504-401-8

© Hawlfraint y Goron 2023

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'r arolygiad ........ 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ........ 9

- Ansawdd Profiad y Claf ........ 9
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 12
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 15

4. Y camau nesaf ........ 16

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 17

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 18

Atodiad C – Cynllun gwella ........ 20

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Coral Laser ar 02 Chwefror 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod Coral Laser yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion mewn amgylchedd fodern a chroesawgar. Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Roedd adborth gan gleifion y gwasanaeth yn yr holiaduron yn gadarnhaol.

Roedd y canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben a ddarparwyd gan y person cofrestredig yn unol â'r rheoliadau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd mynediad i'r gwasanaeth ar gyfer pobl anabl
- Roedd gan y practis drefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd cleifion, ynghyd â phrosesau i sicrhau y gellir cynnal trafodaethau cyfrinachol
- Mae gan y gwasanaeth amgylchedd fodern a chroesawgar.
- Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cwblhau a'u diweddaru ym mhob sesiwn driniaeth.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch y rhai sy'n ymweld â'r safle. Fodd bynnag, gwelsom fod angen gwelliannau yn y maes hwn er mwyn lleihau'r risg o niwed i'r staff a'r cleifion.

Roedd y lleoliad yn lân, yn daclus, heb unrhyw annibendod gyda thriniaethau'n cael eu cynnal mewn ystafell sengl a oedd yn amddiffyn urddas a phreifatrwydd y cleifion.

Er bod offer cymorth cyntaf priodol ar y safle, dywedwyd wrthym nad oedd hyfforddiant cymorth cyntaf wedi'i gwblhau. Roedd tystiolaeth bod y diffoddwyr tân yn cael eu gwasanaethu'n flynyddol ac roedd asesiadau risg tân wedi'u sefydlu ar gyfer y safle. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd y person cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant mewn diogelwch tân. Gallai diffyg hyfforddiant mewn cymorth cyntaf a diogelwch tân roi cleifion mewn perygl o niwed y gellir ei osgoi.

Gwelsom hefyd dystiolaeth nad oedd y gwasanaeth wedi dilyn y protocolau meddygol ysgrifenedig ynghylch amserlenni ar gyfer cwblhau profion croen cyn darparu triniaethau laser, ym mhob achos. O ganlyniad, ni allai AGIC fod yn sicr bod y triniaethau hynny wedi'u darparu mewn modd diogel. Ymdriniwyd â hyn drwy broses hysbysiad diffyg cydymffurfio AGIC.

Achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:
- Dylai'r person cofrestredig sicrhau eu bod yn cadw at y protocolau meddygol ysgrifenedig bob tro
- Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys hyfforddiant diogelwch tân a chymorth cyntaf yn y gwaith, yn cael ei gwblhau
- Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod swyddog cymorth cyntaf sydd wedi'i hyfforddi'n briodol yn ei le.

Yn dilyn yr arolygiad, rhoddwyd y sicrwydd angenrheidiol i AGIC fod y person cofrestredig wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf yn y gwaith a diogelwch tân ym mis Mai 2023.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:
- Roedd gwybodaeth am y cleifion yn cael ei storio'n ddiogel
- Roedd y peiriant laser a ddefnyddir yn y practis yn cael ei wasanaethu a'i gynnal a'i gadw'n briodol i sicrhau triniaeth ddiogel.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod y person cofrestredig, sef unig weithredwr y cyfarpar laser, yn canolbwyntio ar y cleifion ac yn meddu ar wybodaeth a sgiliau priodol i ddarparu triniaethau diogel i'r cleifion.

Roedd polisïau a gweithdrefnau amrywiol ar waith, ac adolygwyd y rhan fwyaf yn unol ag amserlenni penodedig. Roedd gan y person cofrestredig hefyd brosesau ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ac adroddodd ar y canfyddiadau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dogfennwyd pryderon ac adborth a gweithredwyd arnynt er mwyn llywio gwelliant
- Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod y defnyddiwr awdurdodedig sy'n defnyddio'r peiriant laser wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ac wedi cwblhau hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ysgrifennu, gweithredu ac adolygu polisi rheoli heintiau, fel y rhagnodir, i sicrhau arfer gorau.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan Gleifion

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gofal a thriniaethau a ddarperir. Cawsom gyfanswm o 16 o holiaduron wedi'u cwblhau. Dywedodd pymtheg o'r ymatebwyr eu bod wedi ymweld â'r lleoliad yn ystod y deufis diwethaf, ac un o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

> *"Gwasanaeth rhagorol, glân a phroffesiynol bob amser"*
> *"Lleoliad da iawn. Rwyf wedi mwynhau fy nhriniaethau yma ac yn teimlo'n gyfforddus iawn."*
> *"Yn falch iawn o'r gofal a'r gwasanaeth cwsmeriaid a dderbyniwyd. Lle hyfryd i gael triniaethau. Byddwn yn ei argymell yn fawr."*
> *"Cyfeillgar iawn, yn hollol gyfforddus. Gwybod popeth a fyddai'n digwydd a chynnig seibiannau pe bai'n mynd yn ormod."*

**Urddas a pharch**

Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael ei drin gydag urddas a pharch. Gallai'r drws i'r ystafell driniaeth gael ei gau a'i gloi pan oedd yn cael ei defnyddio. Cadarnhaodd y person cofrestredig y gallai cleifion newid, pe bai angen, yn yr ystafell driniaeth y gellir ei chloi. Cafodd tywelion a gorchuddion tywel eu darparu i gadw urddas lle bo angen. Cawsom ein sicrhau y gellid cadw urddas y cleifion.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno'n gryf eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch a bod mesurau wedi'u cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd.

**Cyfathrebu'n effeithiol**

Roedd taflenni gwybodaeth i'r cleifion a rhestrau prisiau i'r cleifion yn cael eu harddangos. Roedd y canllaw i'r cleifion a'r datganiad o ddiben a ddarparwyd i ni gan y person cofrestredig a'r rhain yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol. Roedd y broses gwyno yn cynnwys manylion AGIC yn ôl yr angen. Atebodd 16 o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo bod y staff wedi gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad a'u bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys, cymaint ag yr

oeddent am gael eu cynnwys, mewn penderfyniadau am eu triniaeth.

**Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion**
Caiff y cleifion ymgynghoriad dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, a oedd yn cynnwys digon o wybodaeth am risgiau, manteision, a chanlyniadau tebygol y driniaeth dan sylw. Dywedwyd wrthym fod y wybodaeth hon yn cael ei hailadrodd ym mhob apwyntiad dilynol a gofynnwyd am adborth ynghylch sut roedd y claf yn teimlo y bu'r driniaeth flaenorol. Roedd unrhyw sgîl-effeithiau yr oeddent wedi'u profi a manteision triniaethau i gyd wedi'u dogfennu. Gwelsom dystiolaeth o hyn yng nghofnodion y cleifion. Cawsom sicrwydd bod y cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

**Cynllunio a darparu gofal**
Adolygwyd cofnodion pum claf a chanfuwyd eu bod o safon dda. Roedd y cofnodion yn ymdrin â phob rhan o daith triniaeth y claf, gan gynnwys manylion yr ymgynghoriad cychwynnol, caniatâd i bob triniaeth, ynghyd â risgiau posibl a chanlyniadau tebygol y driniaeth a ddewiswyd. Roedd yr holl adborth wedi'i gofnodi'n ddigonol.

Roedd hanes meddygol y cleifion yn cael ei gwblhau'n drylwyr a'i gofnodi ar gofnodion y cleifion cyn derbyn triniaethau. Cadarnhaodd 14 o'r 16 o gleifion a gwblhaodd yr holiadur cleifion eu bod wedi cwblhau ffurflen hanes meddygol neu fod y staff wedi cadarnhau eu hanes meddygol cyn cynnal unrhyw driniaeth.

Dywedwyd wrthym fod hanes meddygol claf yn cael ei adolygu ym mhob triniaeth ddilynol. Fodd bynnag, er eu bod yn cael llofnod caniatâd ar gyfer pob triniaeth, nid oedd yn glir bod yr hanes meddygol yn cael ei adolygu.

**Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau, pan ofynnir i'r cleifion am newidiadau i hanes meddygol cyn triniaethau dilynol, fod hyn yn cael ei gofnodi'n glir yn y cofnodion.**

**Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**
Rhoddodd y person cofrestredig enghreifftiau o'r ffordd yr oedd cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch, gan gynnwys esiamplau o gleifion sy'n newid rhyw. Gwelsom fod gan y gwasanaeth bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith, a oedd yn cyfeirio at Ddeddf Cydraddoldeb 2000. Nododd pob un o'r 16 o gleifion a gwblhaodd yr holiadur cleifion nad oeddent wedi profi urnhyw gwahaniaethu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.

Gwelsom fod yr ystafell driniaeth wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod a oedd yn caniatáu i'r cleifion â gofynion symudedd gael eu trin yn hawdd. Roedd mynediad i'r adeilad hefyd yn ymddangos yn addas ar gyfer unrhyw un oedd yn defnyddio cymorth symudedd.

Dywedwyd wrthym mai dim ond yn Saesneg roedd y ddogfennaeth ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym pe bai claf yn ceisio gwybodaeth mewn iaith arall (gan gynnwys y Gymraeg) y byddai'r lleoliad yn trefnu i hwyluso hyn cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol. Roedd y person cofrestredig yn rhugl yn Affricaneg a Saesneg.

**Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**

Gwelsom fod gan y practis fecanweithiau ar waith i gael safbwyntiau ac adborth y cleifion, a dywedwyd wrthym fod yr adborth hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio gwelliannau. Anogwyd y cleifion hefyd i adael adolygiadau ar-lein. Roedd wyth adolygiad ar-lein ar gyfer y gwasanaeth hwn, pob un ohonynt yn bum seren ac yn argymell y gwasanaeth i eraill. Dywedwyd wrthym fod y person cofrestredig yn monitro pob math o adborth a phe bai angen, byddai'n defnyddio'r adborth hwn i adolygu a gwella'r gwasanaeth.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

**Rheoli risg ac iechyd a diogelwch**
Roedd trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch ymwelwyr â'r safle. Gwelsom fod y lleoliad yn lân, yn daclus ac yn rhydd o annibendod gyda thriniaethau'n cael eu cynnal mewn un ystafell a oedd yn amddiffyn urddas a phreifatrwydd y cleifion.

Er i ni weld tystiolaeth o offer cymorth cyntaf priodol, dywedwyd wrthym nad oedd hyfforddiant cymorth cyntaf wedi'i gwblhau.

Roedd tystiolaeth bod diffoddwyr tân yn cael eu gwasanaethu'n flynyddol ac roedd asesiadau risg tân ar waith ar gyfer y safle. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd nad oedd y person cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant mewn diogelwch tân a gallai hyn roi'r cleifion mewn perygl o niwed y gellir ei osgoi.

Ymdriniwyd â'r risgiau hyn o dan broses Hysbysiad Diffyg Cydymffurfio AGIC. Cyfeirir at hyn yn **Atodiad** B yr adroddiad hwn.

Yn dilyn yr arolygiad, rhoddwyd y sicrwydd angenrheidiol i AGIC bod y person cofrestredig wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf yn y gwaith a diogelwch tân ym mis Mai 2023, ac y bydd yr holl brotocolau meddygol yn cael eu dilyn ar unwaith.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**
Gwelsom fod yr ystafell driniaeth i'w gweld yn lân, yn daclus ac yn rhydd o annibendod. Nid oedd adborth y cleifion yn dangos unrhyw bryderon gan y cleifion am lendid y gwasanaeth. Atebodd pob un o'r un claf ar bymtheg a gwblhaodd holiadur fod y safle'n 'lân iawn' a theimlent fod mesurau rheoli heintiau ac atal yn cael eu dilyn.

Disgrifiodd y person cofrestredig drefniadau ar gyfer rheoli haint priodol yn y gwasanaeth. Roedd hyn yn cynnwys hylendid dwylo priodol, diheintio'r peiriant laser a'i ddarnau llaw, yn ogystal â bwrdd triniaeth y claf cyn ac ar ôl ei ddefnyddio. Fodd bynnag, er y dywedwyd wrthym fod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal, nid yw'r rhain yn cael eu cofnodi, a dywedwyd wrthym nad oedd gan y gwasanaeth bolisi atal a rheoli heintiau.

**Rhaid i'r person cofrestredig baratoi a gweithredu polisi rheoli heintiau ac adolygu hwn yn rheolaidd i sicrhau arfer gorau. Rydym hefyd yn argymell bod y person cofrestredig yn cwblhau rhestr wirio glanhau dyddiol ac yn cofnodi hyn yn briodol.**

Gwelwyd bin gwaredu eitemau miniog yn y gwasanaeth a oedd yn cael ei storio'n briodol a bod trefniadau gwastraff clinigol ar waith drwy ddarparwr allanol.

**Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**
Gwelsom dystiolaeth o systemau a dogfennau ar waith i gefnogi'r dasg o ddiogelu oedolion agored i niwed. Roedd polisi diogelu wedi'i sefydlu a oedd yn manylu ar y camau priodol i'w dilyn pe bai pryder ynghylch diogelu. Roedd y polisi hyn yn cynnwys manylion cyswllt tîm diogelu'r awdurdod lleol. Adolygwyd a diweddarwyd y ddogfen yn unol â phrotocol Diogelu Cymru Gyfan. Gwnaethom edrych ar dystysgrifau hyfforddiant a oedd yn dangos bod y person cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant priodol ar ddiogelu.

**Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**
Roedd trefniadau priodol ar waith i sicrhau diogelwch y cleifion wrth ddefnyddio'r un peiriant laser cofrestredig. Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau, a oedd yn rhoi cymorth a chyngor ar ddefnyddio'r peiriant laser yn ddiogel. Roedd y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi adolygu'r rheolau lleol yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn cadarnhau eu bod yn dal i fod yn addas. Roedd y peiriant laser wedi'i wasanaethu'n flynyddol. Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid priodol ar gael i gleifion a'r un gweithredwr cofrestredig.

Roedd protocolau triniaeth ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriant laser ac roedd y protocolau hyn wedi cael eu cymeradwyo gan ymarferydd meddygol arbenigol. Roedd y peiriant laser yn cael ei weithredu gan allwedd a thynnwyd yr allwedd hon pan nad oedd y peiriant yn cael ei ddefnyddio a'i gadw gyda'r gweithredwr bob amser. Roedd y peiriant yn cael ei storio'n ddiogel mewn ystafell dan glo.

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**
Cawsom ein sicrhau bod y gweithredwr laser (y person cofrestredig a'r unig weithredwr) yn gymwys i ddefnyddio'r peiriant laser. Gwelsom dystiolaeth fod y person cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth o fewn y flwyddyn a gwelsom dystysgrifau hyfforddiant i gadarnhau hyn. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant gan wneuthurwr y peiriant laser ar sut i'w weithredu'n ddiogel wedi'i gwblhau. Roedd clo wedi'i osod ar ddrws yr ystafell drin er mwyn sicrhau urddas a diogelwch cleifion yn ystod triniaethau. Gwelsom fod arwyddion priodol wedi'u gosod ar ddrws yr ystafell trin er mwyn rhybuddio pobl i beidio â mynd i mewn pan oedd y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio.

Dywedodd y person cofrestredig wrthym fod cleifion yn cael prawf croen cyn dechrau unrhyw driniaeth er mwyn sicrhau eu diogelwch. Cadarnhaodd 15 o'r 16 o gleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael prawf croen cyn cael triniaeth. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, gwelsom sampl o gofnodion y cleifion a chofnod presenoldeb. Pan groesgyfeiriwyd y dogfennau hyn, gwelsom dystiolaeth nad oedd y gwasanaeth bob amser wedi dilyn y protocolau prawf croen fel y nodir

yn y protocol “Service Protocol for Diode (808 nm) Laser Hair Removal (LHR) Alma Beauty Remove” a grëwyd gan Ymarferydd Meddygol Arbenigol (EMP), lle'r oedd y gwasanaeth wedi bod yn cwblhau rhai triniaethau laser yn gynt na'r gofyniad lleiaf o 24-48 awr i wirio am adweithiau niweidiol, neu bythefnos ar gyfer croen math pedwar. Ymdriniwyd â hyn drwy broses hysbysiad diffyg cydymffurfio AGIC. Cyfeirir at hyn yn **Atodiad** B yr adroddiad hwn.

**Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Dangosodd y person cofrestredig wybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o'r triniaethau a gynigiwyd ac roedd yn meddu ar gymwysterau cydnabyddedig yn y maes ymarfer hwn. Disgrifiodd y person cofrestredig bwysigrwydd arsylwadau ôl-driniaeth ac apwyntiadau dilynol gyda'r cleifion er mwyn helpu i wella'r gofal a ddarperir drwy gydol y triniaethau a gynllunnir.

**Rheoli cofnodion**

Gwelsom dystiolaeth o brosesau cadw cofnodion da. Roedd y sampl o gofnodion a adolygwyd yn ddigon manwl ac yn glir a chyson ar gyfer y cleifion newydd a'r cleifion a oedd yn dychwelyd. Gwelsom fod cofnodion cynhwysfawr o driniaethau'r cleifion yn cael eu cwblhau ar bapur. Dywedwyd wrthym fod holl gofnodion cyfredol y cleifion yn cael eu storio'n ddiogel mewn cwpwrdd dan glo, yn yr ystafell dan glo yn y lleoliad. Roedd cofnodion cleifion blaenorol yn cael eu cadw'n ddiogel yng nghyfeiriad cartref y person cofrestredig mewn uned storio dan glo, mewn ystafell dan glo.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

**Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**
Roedd Coral Laser yn wasanaeth a oedd yn cael ei redeg gan y person cofrestredig yn unig, heb unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ehangu'r busnes na chyflogi staff ychwanegol.

Roedd nifer o bolisïau ar waith yn y gwasanaeth, a gwelsom dystiolaeth fod y rhan fwyaf wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd. Lle nad oedd polisïau wedi'u diweddaru fel y rhagnodwyd, gweithredodd y person cofrestredig ar y rhain ar unwaith ar y safle.

**Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod yr holl bolisïau'n cael eu hadolygu a'u diweddaru fel y rhagnodir.**

Gwelsom dystiolaeth bod y person cofrestredig wedi cwblhau adroddiad blynyddol yn unol â Rheoliad 19(3) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011. Roedd hyn yn ymwneud ag asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan gynnwys datganiad blynyddol. Gwelsom hefyd fod gan y gwasanaeth dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol, fel sy'n ofynnol.

**Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**
Roedd tystiolaeth bod prosesau priodol ar waith mewn perthynas â chwynion a rheoli digwyddiadau. Roedd gan y gwasanaeth bolisi a gweithdrefn gwyno briodol ar waith, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt AGIC. Gwnaethom hefyd adolygu gwefan y gwasanaeth a oedd yn manylu ar y broses gwyno.

Cadarnhaodd y person cofrestredig na fu unrhyw bryderon na digwyddiadau diweddar. Disgrifiwyd y broses gwyno ac roedd y weithdrefn yn briodol, gydag AGIC wedi'i rhestru fel pwynt cyswllt ychwanegol.

**Rhaid i'r person cofrestredig gofnodi'r holl bryderon, gan gynnwys anfodlonrwydd llafar lefel isel o ran pa mor llwyddiannus (neu beidio) yw triniaeth.**

**Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**
Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o ddogfennau hyfforddiant a thystysgrifau cymwysterau. Roedd y rhain yn cadarnhau bod gan y person cofrestredig gymwysterau addas i weithredu'r laser cofrestredig.

**Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**
Y person cofrestredig yw'r unig weithiwr. Darparwyd tystiolaeth o dystysgrif manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni ddeliwyd ag unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad | | | |

# Atodiad B - Cynllun gwella uniongyrchol

## Gwasanaeth:Coral Laser, Caerdydd

## Dyddiad yr arolygiad: 02 Mai 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau y cedwir at y protocolau meddygol perthnasol bob amser, yn enwedig o ran yr amser rhwng prawf croen a'r driniaeth laser ddilynol. | Rheoliad 45 (1) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 | Cymerwch brawf croen ar bob cleient ac aros 24-48 awr i wirio am adweithiau niweidiol.<br>Math o groen 4 – aros am 3 wythnos.<br>Mae'r cyfnod amser aros rhwng prawf a thriniaeth yn dibynnu ar ba wrtharwyddion sy'n bodoli. Gweler tudalen 5 o 25 Clinical Protocol for Diode Laser Hair Removal gan Dr Paul Myers. | Lauren Eaten | Ar unwaith |
| Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod hyfforddiant | Rheoliad 20 (1) (a) a (2) (a) o Reoliadau | Cwrs Ymwybyddiaeth Tân a chwrs Cymorth Cyntaf yn y Gweithle i'w | Lauren Eaton | Cwblhawyd a thystiwyd ym mis Mai 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gorfodol, gan gynnwys hyfforddiant diogelwch tân a chymorth cyntaf yn y gwaith ac unrhyw hyfforddiant arall a nodwyd i gyflawni ei rôl, yn cael ei gwblhau.<br><br>Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bob amser bod gan y gwasanaeth swyddog cymorth cyntaf sydd wedi'i hyfforddi'n briodol a bod tystiolaeth o hyn yn cael ei darparu i AGIC. | Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 | cwblhau | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau): Lauren Eaton**

**Teitl swydd: Person Cofrestredig / Perchennog Gweithredwr**

**Dyddiad: 10 Mai 2023**

# Atodiad C - Cynllun gwella

## Gwasanaeth:Coral Laser, Caerdydd

## Dyddiad yr arolygiad: 02 Mai 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau, pan ofynnir i'r cleifion am newidiadau i hanes meddygol cyn triniaethau dilynol, fod hyn yn cael ei gofnodi'n glir yn y cofnodion. | Rheoliadau 23 (1) (a)(i) a (ii), Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 | O dan sylwadau adborth ar Ffurflen Cofnod Cleient rwyf nawr yn gofyn ac yn cofnodi'n benodol a oes unrhyw newidiadau i statws meddygol neu feddyginiaeth y cleient. | Lauren Eaton | Cwblhawyd ar unwaith 3 Mai 2023 |
| Rhaid i'r person cofrestredig baratoi a gweithredu polisi rheoli heintiau.<br><br>Rydym hefyd yn argymell bod y person cofrestredig yn cwblhau rhestr wirio | Rheoliad9 (1) (n) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 | Mae Polisi Rheoli Heintiau wedi'i baratoi a'i weithredu. Darparwyd tystiolaeth i AGIC.<br><br>Nodwyd. Darparwyd tystiolaeth i AGIC. | Lauren Eaton | Cwblhawyd ar unwaith 3 Mai 2023<br><br>Gweithredwyd ar 16 Mehefin 2023 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| glanhau dyddiol ac yn cofnodi hyn yn briodol. | | | | |
| Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod yr holl bolisïau'n cael eu hadolygu a'u diweddaru fel y rhagnodir. | Rheoliad 9 (5) (a) (b) a (c) o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 | Nodwyd. Rwyf wedi adolygu'r holl bolisïau ac wedi sicrhau eu bod wedi'u diweddaru yn ôl yr angen. Rwyf hefyd wedi creu nodiadau atgoffa ar gyfer adolygiadau polisi yn y dyfodol ar fy nghalendr Outlook | Lauren Eaton | Ar unwaith 3 Mai 2023 |
| Rhaid i'r person cofrestredig gofnodi'r holl bryderon, gan gynnwys anfodlonrwydd llafar lefel isel o ran pa mor llwyddiannus (neu beidio) yw triniaeth. | Rheoliad 24 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 | Nodwyd. Mae'r gofrestr yn ei lle fel y profwyd yn ystod yr arolygiad – yn y dyfodol byddaf yn cofnodi pob anfodlonrwydd lefel isel. | Lauren Eaton | Ar unwaith 3 Mai 2023 |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau): Lauren Eaton**

**Teitl swydd: Person Cofrestredig / Perchennog Gweithredwr**

**Dyddiad: 15 Mehefin 2023**